

Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a  
Sgiliau  
Gradd-brentisiaethau  
EIS(5)DA14  
Ymateb gan Gyngor Cyllido  
Addysg Uwch Cymru

National Assembly for Wales  
Economy, Infrastructure and  
Skills Committee  
Degree Apprenticeships

Evidence from The Higher  
Education Funding Council for  
Wales

---

## Ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar Radd-brentisiaethau

### Ynglŷn â CCAUC

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru – CCAUC – yw'r corff cyhoeddus sy'n gweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr addysg uwch. Rydym yn rheoleiddio lefelau ffioedd darparwyr addysg uwch, sicrhau bod fframwaith ar waith ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch, a chraffu ar berfformiad prifysgolion a darparwyr dynodedig eraill. Rydym hefyd yn darparu cyllid ar gyfer addysgu ac ymchwil addysg uwch, ac rydym yn cymhwyso ein dylanwad a'n harbenigedd i helpu i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch sydd â buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach yn ogystal.

### Gwerth gradd-brentisiaethau

Mae gradd-brentisiaethau Lefel 6 wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion presennol ac anghenion y dyfodol o ran uwchsgilio economaidd a nodir gan gyflogwyr yng Nghymru, a gyrru cynhyrchiant. Mae rhaglenni cyflawni hyblyg yn darparu cyfleoedd ar gyfer prentisiaid i weithio ochr yn ochr â gweithwyr profiadol er mwyn ennill sgiliau ymarferol a phrofiad, yn ogystal â chymhwyster gradd addysg uwch sy'n bodloni gofynion cyflogwyr, drwy ddatblygu fframwaith, a chyflawni achrediad proffesiynol lle bo hynny'n briodol. Gall gradd-brentisiaethau gefnogi'r gwaith o ehangu mynediad a chryfhau ymdrechion i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae cydweithio rhwng cyflogwyr a darparwyr addysg uwch ac addysg bellach yn tanategu'r gwaith o ddatblygu llwybrau dysgu blaengar, ac mae'n ddull i gryfhau'r cydraddoldeb rhwng

astudiaethau galwedigaethol ac academiaidd. Mae'r dull hwn yn alinio ag amcanion y [Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(CTER\)](#). Mae CCAUC mewn sefyllfa unigryw er mwyn gallu rheoli gradd-brentisiaethau fel y sefydliad sy'n goruchwylio ansawdd addysg uwch.

## **1. Oes unrhyw broblemau wedi dod i'r amlwg wrth gyflwyno gradd-brentisiaethau a pha wersi y gellir eu dysgu o'u cyflwyno?**

Cafodd y cyfnod paratoadol o ddwy flynedd cyn cyflwyno gradd-brentisiaethau a'r oedi cyn cychwyn effaith negyddol ar enw da'r rhaglen i ddechrau. Cafodd diddordeb CCAUC mewn symud yr agenda prentisiaethau ymlaen yng Nghymru a chyflawni yn erbyn ei [Lythyr Cylch Gwaith](#) (28 Mawrth 2018) ei gyfyngu gan amseriad datganiad Llywodraeth Cymru o gyfeiriad polisi a'r cyllid, nad oedd wedi'i gadarnhau nes mis Chwefror 2019, yn [Llythyr Cylch Gwaith](#) CCAUC. Yn ogystal, ni dderbyniodd CCAUC eglurhad gan Lywodraeth Cymru nes 2 Mawrth 2019 ar a fyddai cyllideb y cynllun peilot, gwerth £20 miliwn, yn cael ei defnyddio i dalu am gyllid parhad prentisiaid a oedd wedi dechrau yn ystod y cyfnod peilot o fewn blwyddyn academiaidd 2021/22 a'r tu hwnt, gan y byddai hyn yn cael effaith ar nifer y prentisiaethau a fyddai ar gael yn ystod y cyfnod peilot.

Chwyddwyd yr oedi hwn am nad oedd y Cyngor Sgiliau Sector perthnasol wedi ymateb yn ddigonol i'r gwaith o gomisiynu fframweithiau gan Lywodraeth Cymru, gan arwain at ymgynghorydd allanol yn cael ei gomisiynu i ailddechrau'r broses. O ganlyniad, ni chyhoeddwyd y [Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch \(Cymru\)](#) nes 1 Awst 2019, sef blwyddyn 2 o'r prosiect peilot, 2019/20. Cafodd hyn effaith ar allu'r sector addysg uwch i ymateb yn amserol, a mwy o ddibyniaeth ar y perthnasau presennol â chyflogwyr mawr a oedd yn uwchsgilio gweithwyr presennol yn 2018/19.

Y gobaith yw y bydd strwythurau a phrosesau sydd newydd eu cynnig i ddatblygu, adolygu a chyhoeddi fframweithiau yn lleihau'r potensial ar gyfer oedi wrth symud ymlaen. Mae ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynglŷn â [Rôl yr awdurdod cyhoeddi o ran fframweithiau prentisiaeth](#) yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Dylai'r cylch gorchwyl diweddaedig ar gyfer Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru ei alluogi i ddarparu'r mewnbwn strategol a'r her gadarn sydd eu hangen i lunio polisiau a strategaeth y dyfodol o ran prentisiaethau.

Mae'n rhy gynnar i lunio casgliadau ar effaith y prosiect Gradd-brentisiaethau, gan ei fod yn dal i fod yn ei gyfnod peilot (2018/19 i 2020/21) ac nid yw'r data cychwynnol yn darparu unrhyw dueddiad eto. Mae gwerthusiad Llywodraeth Cymru o radd-brentisiaethau wedi'i lunio i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o gyfnod cychwynnol y rhaglen Gradd-brentisiaethau er mwyn asesu ei effeithiolrwydd, ei heffeithlonrwydd a'i heffaith. Caewyd y [tendr byw](#) am gynigion ar gyfer y Gwerthusiad Pilot o Radd-brentisiaethau ar 8 Ionawr 2020. Gan fod yr ymchwiliad hwn yn gorgyffwrdd â'r gwerthusiad, rydym yn tybio y bydd y gwerthusiad yn cael ei lywio gan yr ymchwiliad.

Mae cymhlethdod y rhaglen Gradd-brentisiaethau a'r mecanwaith ariannu presennol yn gofyn am adnoddau staff sylweddol i reoli gweithgareddau'r rhaglen. Mae hon yn broses a wneir â llaw ar y foment, ac mae CCAUC yn rheoli'r gwaith hwn o fewn lefelau staff presennol ar hyn o bryd. Byddai dull cynaliadwy ar gyfer darpariaeth hirdymor gradd-brentisiaethau yn gofyn am gadarnhau cyllid blynyddol rheolaidd er mwyn hwyluso ymgorffori cyllid gradd-brentisiaethau mewn modd effeithiol o fewn y trefniadau presennol ar gyfer data ariannu a monitro ar gyfer darpariaeth addysg uwch. Yn y modd hwn, gall CCAUC fonitro a dylanwadu ar ehangu mynediad ymhellach a chynnydd drwy ein methodoleg gyllido.

Mae cyflogwyr yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r cwricwlwm, ac er bod gan sefydliadau addysg uwch dyniant o ran datblygiad proffesiynol parhaus drwy weithgarwch masnachol a dysgu yn y gweithle, mae model diweddaredig o ymgysylltu a chyflawni yn datblygu er mwyn diwallu'r anghenion ar gyfer uwchsgilio economaidd. Mae pwysigrwydd rolau galwedigaethol a chyflogadwyedd wedi derbyn mwy o sylw, wrth i sefydliadau addysg uwch ymgorffori gradd-brentisiaethau o fewn y rhaglen brentisiaeth ehangach yng Nghymru. Efallai y bydd angen i sefydliadau addysg uwch gryfhau eu hadnoddau sefydliadol i gwrdd ag unrhyw waith posibl i ehangu rhaglenni.

Mae dulliau polisi amrywiol ar gyfer cyflwyno gradd-brentisiaethau ar draws y pedair gwlad yn cyflwyno heriau i gyflogwyr ac unigolion sy'n gweithio ar draws ffiniau, a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru sy'n gweithio o fewn cyd-destun y DU ac sy'n gallu cyflwyno gradd-brentisiaethau o Loegr. Gosodir hyn o fewn cyd-destun trefniadau ariannu, mynediad i ddarpariaeth, buddsoddiad mewnol posibl a chadw swyddi o werth uchel.

Mae Atodiad A [Llythyr Cylch Gwaith 2019](#) CCAUC yn datgan bod rhaid i CCAUC ystyried cydlyniant rhanbarthol. O ganlyniad, mae CCAUC yn ystyried lleoliad daearyddol a chenhadaeth ac arbenigedd sefydliadau addysg uwch wrth ddatblygu polisi. Mae cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer prentisiaethau yn gofyn i'r ddarpariaeth fod yn seiliedig ar alw, sef anghenion y cyflogwr. Mae hyn wedi arwain at CCAUC yn wynebu cyfeiriadau polisi a allai wrthdaro. Mae blaenoriaethu gofynion cyflogwyr dros gydlyniant rhanbarthol y ddarpariaeth yn cyfyngu ar y gallu i ddatblygu cydweithrediadau rhanbarthol rhwng addysg uwch ac addysg bellach er mwyn datblygu llwybrau cynnydd a gallu i ddylanwadu ar ddsbarthiad daearyddol y ddarpariaeth mewn perthynas â gradd-brentisiaethau. Bydd angen ystyried newid mewn cyfeiriad polisi ar weithgarwch sy'n derbyn cyllid craidd, yn ogystal â'i effaith ar drefniadau masnachfaint a chonsortia.

## **2. A oedd y broses a'r meini prawf a ddefnyddiwyd i gymeradwyo cynigion gan ddarparwyr i gyflawni gradd-brentisiaethau yn foddhaol?**

Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Addysg mewn [llythyr](#) i CCAUC ei disgwyliadau ar gyfer gradd-brentisiaethau yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2018/19 a 2020/21. Mae'r oedi o ran cadarnhau'r ymrwymiad cyllido wedi arwain at gymhlethdodau o ran amserlenni yn y broses ar gyfer cadarnhau cynigion gan sefydliadau addysg uwch ar gyfer cyllid.

Mae CCAUC yn nodi proses a meini prawf cadarn ar gyfer cymeradwyo cynigion gan ddarparwyr yn ei alwad ar gyfer cyllido cynigion gradd-brentisiaethau a gyhoeddir bob blwyddyn. Mae'r gwaith hwn yn llafurddwys, ac yn lled anhyblyg i'w ddefnyddio os ceir cynnydd sylweddol yn y radd-brentisiaethau a ddarperir. Mae [cylchlythyr W19/04HE](#) CCAUC, a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2019, yn dangos y gofynion ar gyfer cymeradwyo cyllid gan sefydliadau a ariennir gan CCAUC i ddarparu gradd-brentisiaethau.

Fel rhan o'r broses, mae'n ofynnol fod darparwyr addysg uwch yn cynnwys rhestr o gyflogwyr sy'n cael mynediad i'r rhaglen, nifer y prentisiaethau fesul cyflogwr, a dosbarthiad daearyddol y darparwyr yn eu cynigion.

Mae meini prawf CCAUC ar gyfer cymeradwyo cynigion hefyd yn gofyn am dystiolaeth gan sefydliadau addysg uwch i ddangos eu bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth a'r Gymraeg.

Mae'n ofynnol i sefydliadau addysg uwch fodloni trothwyon ansawdd a nodir yng nghylchlythyr CCAUC ar gyfer cynigion ar gyfer cyllid. Mae cynigion yn cael eu hystyried gan banel, a gadeirir gan aelod o gyngor CCAUC. Mae ei aelodaeth yn cynnwys Llywodraeth Cymru a swyddogion CCAUC. Gellir gohirio cynigion er mwyn cael eglurhad neu ragor o wybodaeth fel sy'n briodol. Mae CCAUC wedyn

yn dyrannu cyllidebau ar sail nifer y prentisiaethau o fewn y cynigion a gymeradwywyd.

Gofynnir i sefydliadau addysg uwch gyflwyno adroddiadau monitro sy'n manylu data recriwtio a nodweddion personol gwirioneddol ([Atodiad A](#) i gylchlythyr [W19/38HE](#), Degree Apprenticeships 2019/20 Monitoring Report, a gyhoeddwyd ar 13 Tachwedd 2019). Mae hyn yn ofynnol er mwyn cyfrifo'r cyllid sydd angen ei dalu i sefydliadau addysg uwch ac i werthuso sut maent yn cynrychioli grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn addysg uwch ac uchelgeisiau cydraddoldeb ehangach Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cydbwysedd rhwng y rhywiau. Gwerthusir ymgysylltiad gan gyflogwyr a phroffil y cyflogwyr sy'n cael mynediad i'r rhaglen gradd-brentisiaethau drwy'r broses hon yn ogystal.

Mae CCAUC wedi sefydlu gweithgor gradd-brentisiaethau sy'n cynnwys arweinwyr gradd-brentisiaethau mewn sefydliadau addysg uwch ac aelodau o Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol mewn addysg uwch i ddarparu safbwynt Cymru gyfan a rhannu arfer da. Dylai hyn helpu i gysylltu gradd-brentisiaethau â gwaith y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.

Mae CCAUC yn aelod o Grŵp Cynghori'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch ac roedd yn rhan o'r gwaith o gyhoeddi dogfen arweiniad [Quality Assuring Higher Education in Apprenticeships: Current Approaches \(Gorffennaf 2018\)](#) a [Characteristics Statement: Apprenticeships in Higher Education](#) (Gorffennaf 2019), a gafodd eu llunio i ategu a chyd-destunoli gwybodaeth o fewn y fframweithiau.

Mae CCAUC yn bwriadu comisiynu adolygiad ansawdd datblygiadol o radd-brentisiaethau i ddarparu set o argymhellion i'w cyflawni yn y dyfodol. Cynhelir y gwaith hwn gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Estyn a bydd yn ystyried sut mae'r ddarpariaeth yng Nghymru yn mynd i'r afael â dogfen [Characteristics](#)

[Statement: Higher Education in Apprenticeships](#) gan yr Asiantaeth Sicrhau

Ansawdd. Bydd yn adrodd ym mis Mawrth 2021.

**3. Beth yw eich safbwyntiau o ran y galw am radd-brentisiaethau a sut y dylid rheoli'r galw hwnnw, o ran ystod y fframweithiau a'r galw gan gyflogwyr a dysgwyr?**

Gwnaeth cylchlythyr [W18/29HE, Degree Apprenticeships 2019/20: Consultation on the Funding Methodology and Request for Expressions of Interest](#), wahodd sefydliadau a ariennir gan CCAUC i fynegi eu barn ynghylch dyrannu cyllid, petai'r galw yn fwy na'r cyllid sydd ar gael. Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at yr angen am ddull a arweinir gan alw o ran dyrannu cyllid i radd-brentisiaethau o fewn y tri maes blaenoriaeth, sef digidol, peirianeg a gweithgynhyrchu uwch, ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried y galw posibl mewn meysydd eraill a'r galw am ddarpariaeth ôl-raddedig ar Lefel 7. Ceir hefyd densiwn posibl rhwng gofynion cyflogwyr sy'n talu'r ardoll brentisiaethau ac sy'n gweithredu ledled y DU mewn ystod o gyd-destunau a'r meysydd blaenoriaeth cyfyngedig yn y sector a ariennir ar hyn o bryd ar gyfer gradd-brentisiaethau yng Nghymru. Er enghraifft, y sector cyhoeddus yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru, ac nid yw cyrff fel darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n talu'r ardoll yn gallu cael mynediad at raglenni gradd-brentisiaethau a ariennir.

Mae'r galw am radd-brentisiaethau yn seiliedig ar hyn o bryd ar flaenoriaethau Gweinidogol a thystiolaeth a gyflwynwyd yng nghynlluniau gweithredu Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn 2019. Dylai canfyddiadau ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau i [Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol](#) lywio ymgysylltiad addysg uwch â chynllunio'r farchnad lafur lleol, a nodi blaenoriaethau'r sector.

Mae rhaglenni sy'n canolbwyntio ar yr economi sy'n seiliedig ar dystiolaeth o alw gan gyflogwyr yn cael eu datblygu orau mewn cydweithrediad â sefydliadau addysg uwch er mwyn gwneud y defnydd orau o allu, cenhadaeth ac arbenigedd. Bydd angen cymryd i ystyriaeth hefyd gynlluniau recriwtio a hyfforddi cyflogwyr, sydd yn rhagweld deuddeg mis ymlaen llaw yn nodweddiadol. Gall hyn greu pwysau ar yr amserlen ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, i fodloni gofynion y fframwaith prentisiaethau a'r dirwedd ddiwydiannol newidiol. Mae hefyd angen cefnogi cydweithrediad rhwng darparwyr cyflenwi er mwyn sicrhau datblygiad llwybrau cynnydd mewn meysydd blaenoriaeth sectorau, a dosbarthiad daearyddol y ddarpariaeth.

Mae'r galw yn cael ei yrru gan anghenion cyflogwyr, ac mae ymgynghoriadau ar y fframwaith prentisiaethau yn cael eu datblygu ar lefel strategol yn gyffredinol gyda chyflogwyr mawr yn gweithredu mewn meysydd sydd â blaenoriaeth Gweinidogol yn y sector, sef digidol, peirianeg a gweithgynhyrchu uwch. Mae hyn yn adlewyrchu'r strwythur a'r prosesau sydd ar waith a chyfyngiadau cyllidebol yn ystod y cyfnod peilot. Yn yr achos cyntaf, rhagwelwyd y byddai cyfran fawr o'r cyflogwyr sy'n ymgysylltu â'r rhaglen yn gyflogwyr mawr sy'n uwchsgilio staff presennol. Dros amser, disgwylir y bydd nifer y busnesau bach a chanolig sy'n cael mynediad at y rhaglen gradd-brentisiaethau yn cynyddu er mwyn adlewyrchu uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglen hyblyg a hygyrch sy'n diwallu anghenion busnesau bach a chanolig.

Mae'r rhaglen gradd-brentisiaethau ar gyfer pob oed, ac mae ar gael ar gyfer staff newydd a chyfredol. Mae maint y cynllun peilot tair blynedd a'r gyllideb wedi arwain at waith cyfyngedig i hyrwyddo'r rhaglen er mwyn cyfyngu ar y risg y bydd disgwyliadau yn cael eu codi'n uwch na'r lefelau cyllid presennol sydd ar gael. Mae hefyd wedi cyfyngu ar y gwaith ymgysylltu â Gyrfa Cymru a gwaith hyrwyddo mewn ysgolion. Pan fydd y cyfeiriad ar gyfer y dyfodol yn glir, dylid hyrwyddo gradd-brentisiaethau fel dewis dichon sy'n cyfuno gyrfa ac addysg uwch. Mae Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru wedi ystyried y mater hwn a'r



cyfleoedd ehangach er mwyn cynyddu diddordeb mewn prentisiaethau ar gyfer pobl ifanc, sydd yn ddefnyddiol iawn.

Mae sefydlu gradd-brentisiaethau fel dewis dichon i addysg uwch draddodiadol yn angenrheidiol er mwyn cyflawni cydraddoldeb rhwng addysg academiaidd a galwedigaethol. Rhagwelir y gallai datblygu dull newydd ar gyfer dysgu ar lefel uwch yn y gweithle wella'r cydbwysedd o ran sgiliau isel sy'n gallu bodoli lle ceir galw cyfyngedig ar gyfer llafur â sgiliau uchel.

**4. I ba raddau y dylai gweithgareddau a anelir at ehangu mynediad gael eu cynnwys mewn recriwtio ar gyfer gradd-brentisiaethau, a sut y gellir eu defnyddio i sicrhau bod carfannau'n gynrychioliadol?**

Mae [cylchlythyr W18/29HE](#) CCAUC, a gyhoeddwyd ar 20 Mawrth 2019, yn cefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer ehangu mynediad, sef [Alinio'r model prentisiaethau ag anghenion economi Cymru](#).

Ar 14 Ionawr 2019, cynhaliodd CCAUC weithdy ar gyfer darparwyr gradd-brentisiaethau. Roedd y gweithdy yn cynnwys safbwyntiau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, a gyflwynwyd gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru a'r Arweinydd Strategaeth ar gyfer Cydraddoldeb ac Amrywiaeth o fewn Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Llwyddodd hyn i dynnu sylw at feysydd lle ceir her yn y gofod hwn ac effeithiau posibl camau gweithredu â ffocws yn sgil trafodaeth rhwng addysg uwch a chyflogwyr.

Mae CCAUC o'r farn na fyddai'n ddefnyddiol gosod targedau mewn perthynas â nodweddion prentisiaid, gan fod y mwyafrif o brentisiaid sydd wedi'u recriwtio hyd yn hyn yn aelodau o staff presennol a bod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau

Dynol yn awgrymu bod gweithwyr, fel arfer, yn amharod i ddatgan anabledd i'w cyflogwr. Mae gan sefydliadau addysg uwch ddylanwad cyfyngedig dros staff presennol a bydd angen iddynt weithio gyda chyflogwyr yn y dyfodol pan fydd prentisiaid yn recriwtiaid newydd er mwyn sicrhau eu bod yn gallu dylanwadu rhywfaint ar y weithdrefn recriwtio. Byddwn yn parhau i fonitro nodweddion prentisiaid drwy ein trefniadau monitro ac adrodd, a byddwn yn ystyried perfformiad ehangu mynediad sefydliadau addysg uwch yn ein penderfyniadau cyllido.

Mae CCAUC wedi asesu effaith y rhaglen gradd-brentisiaethau beilot ac mae'n disgwyl y bydd sefydliadau addysg uwch yn asesu effaith eu rhaglenni sefydliadol. Bydd hwn yn faes ffocws mewn trefniadau yn y dyfodol.

Mae'r rhaglenni gradd-brentisiaethau sydd ar gael ar hyn o bryd (h.y. digidol, peirianeg a gweithgynhyrchu uwch) yn cynnwys mwy o ddynion yn draddodiadol. Nid yw proffil y prentisiaid, felly, yn syndod. Mae rhagdybiaethau a stereoteipio sy'n dechrau ar lefel yr ysgol gynradd hefyd yn broblemus, yn enwedig y rheini sy'n perthyn i rywedd a pheirianeg. Mae prosiectau fel [Troï Eich Llaw](#) Llywodraeth Cymru yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc mewn sectorau lle ceir mwy o ddynion yn nodweddiadol a chynyddu nifer y rhai sy'n mynd ymlaen i lwybrau galwedigaethol a phrentisiaethau. Mae CCAUC yn aelod o [Ysbrydoli Sgiliau Cymru](#), sy'n bwriadu gwneud cyfraniad cadarnhaol i ddatblygu sgiliau busnes ac sy'n cyfuno [Troï Eich Llaw](#), [Cystadlaethau Sgiliau Cymru](#) a [WorldSkills UK Cymru](#).

Mae CCAUC yn cadw mewn cof fod y rhaglen yn y cam peilot o hyd, a bod angen cymorth ar gyfer ehangu mynediad er mwyn sicrhau bod amrywiaeth y prentisiaid yn cynyddu. Fel rhaglen gydweithredol, gall sefydliadau addysg uwch ddefnyddio arbenigedd eu darparwyr partner. Mae CCAUC wedi derbyn gwahoddiad i ymuno â Grŵp Gweithgor Anabledd Llywodraeth Cymru, ac mae'n

cyfeirio sefydliadau addysg uwch tuag at [Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar Gyfer Prentisiaethau 2018–21](#) a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar gyfer arweiniad pellach.

## **5. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynglŷn â chost gradd-brentisiaethau, sut yr ariennir gradd-brentisiaethau a swm yr arian sydd wedi'i ymrwymo iddynt?**

Ar 17 Hydref 2016, derbyniodd CCAUC lythyr cylch gwaith diwygiedig sy'n perthyn i flwyddyn ariannol 2016–17. Gwnaeth y llythyr cylch gwaith diwygiedig gyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn mynd i ddarparu dyraniad o £20 miliwn er mwyn cofnodi newid strategol mewn sefydliadau yng Nghymru. Gwnaeth cylchlythyr [Supporting Strategic Change Fund](#) CCAUC (2016) fynd i'r afael â nifer o faterion, gan gynnwys datblygu buddsoddiad mewn prentisiaethau lefel uwch. Gan fod gradd-brentisiaethau yn gynnwys newydd (er bod sefydliadau addysg uwch yn cyflwyno darpariaeth dysgu seiliedig ar waith arall), roedd angen buddsoddiad cychwynnol mewn adnoddau a capasiti i ddechrau'r rhaglen er mwyn sicrhau màs critigol. Yn ystod eu lansiad yn Lloegr (2015), cefnogwyd darparwyr gan [Gronfa Datblygu Gradd-brentisiaethau](#) er mwyn hybu capasiti addysg uwch a'r seilwaith mewnol.

Derbyniodd CCAUC [lythyr o](#) gadarnhad gan Ysgrifennydd y Cabinet i ddweud y byddai'n derbyn cymorth gan Lywodraeth Cymru i ariannu gradd-brentisiaethau yng Nghymru. Byddai'r cyllid ar gyfer rhaglen beilot o dair blynedd o radd-brentisiaethau rhwng 2018/19 a 2020/21 yn £20 miliwn. Roedd y dyraniad cyllid hwn ar gyfer prentisiaethau sy'n gyfwerth ag amser llawn yn ystod tymor presennol y Cynulliad, ac mae CCAUC wedi derbyn sicrwydd gan Lywodraeth Cymru y bydd yn ariannu a chefnogi prentisiaid a ddechreuodd eu prentisiaethau erbyn 2020/21 yn y dyfodol nes eu bod yn cwblhau eu prentisiaethau.

Mae'r broses o ariannu safonau gradd-brentisiaethau yn Lloegr yn gweithredu ar sail [lled band cyllido prentisiaethau](#), sy'n werth rhwng £6,000 a £27,000 ar gyfer bob prentis ar hyn o bryd. Yng Nghymru, mae cyllid gradd-brentisiaethau ar gyfer y rhaglen beilot gwerth £27,000 ar gyfer pob prentis, a bydd hwn yn cael ei ddosbarthu dros gyfnod y brentisiaeth. Mae hyn yn alinio â'r lefelau ffioedd dysgu y gellir eu codi ar gyfer cwrs addysg uwch amser llawn. Yn y rhaglen beilot, mae gradd-brentisiaethau yng Nghymru yn canolbwyntio ar bynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg), sy'n ddrud.

Un o nodau gwerthusiad Llywodraeth Cymru o'r rhaglen gradd-brentisiaethau beilot yw llywio datblygiadau'r rhaglen yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cael ei adrodd tan fis Ebrill 2021. Mae CCAUC o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cytuno ar flwyddyn ychwanegol o gyllid peilot ar gyfer blwyddyn 4 (blwyddyn academaidd 2021/22), er mwyn galluogi i benderfyniadau gael eu gwneud ac i liniaru unrhyw berygl o doriad posibl wrth recriwtio prentisiaid gradd newydd. Byddai hyn o fudd ychwanegol hefyd i sicrhau bod disgwyliaidau cyflogwyr yn parhau i gael eu bodloni.

Byddai CCAUC yn croesawu penderfyniad o ran dull cyllido cynaliadwy ar gyfer gradd-brentisiaethau sy'n ystyried fforddiadwyedd a'r berthynas â darpariaeth addysg uwch arall, yn enwedig darpariaeth ran-amser, a lefelau ffioedd a chymorth cyllid.

## **6. Sut mae'r rhaglen gradd-brentisiaethau beilot wedi effeithio ar brentisiaethau ar lefelau eraill, os o gwbl?**

Mae CCAUC yn ystyried y dylai gradd-brentisiaethau gryfhau'r cydraddoldeb rhwng dysgu galwedigaethol ac academaidd, a gwella brand y prentisiaethau.

Pan ceir eglurder ar raddfa gradd-brentisiaethau yn y dyfodol, bydd angen cynnal gwaith pellach er mwyn ymgorffori'r brand gradd-brentisiaethau mewn ysgolion ac i sefydlu'r cymhwyster fel dewis dichon i addysg uwch traddodiadol.

Mae cydweithrediad a chyd-greu cwricwlwm yn nodwedd hanfodol o radd-brentisiaethau, gan fod rhaid i gymwysterau addysg uwch fodloni gofynion cyflogwyr ac adlewyrchu swyddi galwedigaethol a nodir yng ngofynion y fframwaith. Mae nifer o ddigwyddiadau ymgynghori wedi'u cynnal er mwyn datblygu'r Fframweithiau Digidol, Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch, gan gymryd i ystyriaeth llwybrau darparwyr o brentisiaethau ar lefel is, llwybrau mynediad galwedigaethol, pwyntiau ymadael, a chynnydd at astudiaethau ôl-raddedig. Y nod yw y bydd hyn yn codi dyheadau'r prentisiaid hynny na fyddai wedi ystyried astudio ar lefel uwch i ddechrau.

Mae CCAUC yn ystyried bod dull cytbwys yn angenrheidiol er mwyn datblygu rhaglen brentisiaethau ar bob lefel er mwyn diwallu anghenion uwchsgilio economaidd yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn cydnabod buddion dull integredig, a hynodrwydd addysg uwch fel darparwr astudiaethau ar lefel israddedig. Dylid mesur gwerth gradd-brentisiaethau o ran buddion cymdeithasol ehangach, twf economaidd a buddsoddiad mewnol.

## **7. Pe bai unrhyw agwedd ar y dull o lywio gradd-brentisiaethau'n newid, beth ddylai'r cyfeiriad fod ar gyfer y dyfodol?**

Mae cyngor gan y sector yn awgrymu bod gradd-brentisiaethau a arweinir gan addysg uwch yn datblygu'n gyflym fel ymateb o ansawdd i anghenion cyflogwyr ar gyfer uwchsgilio economaidd. Mae gan sefydliadau addysg uwch arbenigedd ar lefel gradd, ac fel y cyrff sy'n dyfarnu cymwysterau gradd, maent mewn sefyllfa

ddelfrydol i arwain y gweithgaredd hwn. Mae CCAUC yn ystyried y dylid parhau â'r cyfeiriad hwn gyda thwf parhaus mewn addysg uwch, cydweithredu rhwng darparwyr addysg bellach a darparwyr hyfforddiant preifat, a chreu darpariaeth ar y cyd sydd â ffocws ar gyflogwyr.

Cyngor CCAUC i'r sector yw y dylai gradd-brentisiaethau alinio â'r rhaglen brentisiaethau ehangach. Mae CCAUC yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r nod hwn, ond byddai'n croesawu eglurder o ran cyllid parhad a'i fethodoleg er mwyn sicrhau y ceir ymateb a gynllunnir sy'n gwneud y defnydd gorau o gyllid cyhoeddus.

Croesawir rôl newidiol cyflogwyr wrth ddatblygu'r fframwaith, a gellid datblygu grwpiau clwstwr sy'n dod i'r amlwg er mwyn creu ffocws arbenigedd yn y sector. Yn benodol, byddai CCAUC yn cefnogi rôl ddatblygol Bwrdd Cyngori Prentisiaethau Cymru, fel bwrdd a arweinir gan gyflogwyr, wrth arwain y gwaith o ddatblygu polisi ar brentisiaethau ac adolygu a datblygu fframweithiau a gosod eu blaenoriaethau. Byddai ystyried rôl prentisiaid yn y maes hwn hefyd yn ddefnyddiol.

Cafwyd rhywfaint o waith cyfyngedig i hyrwyddo gradd-brentisiaethau yn ystod y cam peilot. Mae [Porth Sgiliau Busnes Cymru](#) Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth a chyngor ar brentisiaethau, ac mae'n gyfle i gyflogwyr gyflwyno [cofrestr buddiannau](#). Gallai adolygiad o'r broses hon fod yn ddefnyddiol, er mwyn asesu cyfraddau trosi i radd-brentisiaethau mewn addysg uwch ac i fesur ei heffeithiolrwydd ar gyfer y dyfodol. Gellid cael cyfleoedd i wella ymgysylltiad pan fydd Gwasanaeth Prentisiaethau Gwag Llywodraeth Cymru ar-lein. Galli hyn fod yn gyfle i hyrwyddo gradd-brentisiaethau, ac i integreiddio gyda [Gwasanaeth Paru â Phrentisiaethau](#) Gyrfa Cymru.

Mae rhanddeiliad yn awgrymu bod eglurder y cynnig gradd-brentisiaethau yn hanfodol. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfarpar cyfathrebu a marchnata sefydledig ar gyfer hyrwyddo prentisiaethau, ac mae'n bwysig fod gradd-brentisiaethau yn rhan o'r fframwaith hwn. Yn gyson â nodau'r [Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil \(CTER\)](#), hoffem weld Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio ei harbenigedd a phrofiad i hyrwyddo gradd-brentisiaethau fel dull cydgysylltiedig ar gyfer hyrwyddo prentisiaethau. Efallai y byddai hefyd o fudd petai gradd-brentisiaethau yn cael eu hintegreiddio'n well o fewn [Gwobrau Prentisiaethau Llywodraeth Cymru](#). Gallai hyn ddangos dull integredig o gynllunio polisïau ar brentisiaethau, gan dynnu sylw at ragoriaeth yn y sector. Yn 2019/20, mae sefydliadau addysg uwch Cymru wedi cynyddu lefelau cyfranogiad mewn [Worldskills](#). Dylai hyn helpu i godi proffil a chydabyddiaeth sgiliau lefel uwch a chefnogi twf economaidd.

Mae rôl Gyrfa Cymru wrth ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd ar gyfer pob oedran yn arwyddocaol. Mae arbenigedd o fewn y gwasanaeth hwn yn darparu cyfle i gyrraedd pobl ifanc o fewn lleoliad yr ysgol, gan ganolbwyntio ar gynnydd o brentisiaethau lefel is i lefelau uwch ac ymlaen i radd-brentisiaethau. Gall gwybodaeth, cyngor ac arweiniad sy'n ymwneud â phrentisiaethau mewn ysgolion fod yn gyfyngedig fel arall, gan fod y galw ar adnoddau a chapasiti presennol ysgolion yn fawr. Bydd angen i ganllawiau gymryd i ystyriaeth cyfyngiadau presennol ar gyllidebau yn y rhaglen gyfredol a rheoli disgwyliadau. Mae CCAUC yn rhagweld perthynas fwy â Gyrfa Cymru, yn seiliedig ar gynllun twf cynaliadwy wrth ddatblygu polisïau.

Gallai ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar [System addysg a hyfforddiant ôl-orfodol wedi'i diwygio](#) gynnig mecanwaith i gyflawni rhagor o integreiddio a chynnydd ar gyfer pobl ifanc. Mae cylchlythyr CCAUC, [Degree Apprenticeships in Wales and Proposals for Funding 2019/20](#), yn gofyn i sefydliadau a ariennir gan CCAUC i ddarparu cyfleoedd i wella llwybrau o brentisiaethau ar lefel is i radd-brentisiaethau.

Nid yw [Sgiliau Hanfodol Cymru](#) yn ofyniad i'r rhaglen gradd-brentisiaethau beilot, er bod CCAUC yn disgwyl sicrwydd y cefnogir dysgu prentisiaid. Mae hyn yn golygu y bydd prentisiaid ond yn derbyn cymhwyster gan eu darparwr addysg uwch, ac nid tystysgrif prentisiaeth. Nid yw hyn yn alinio â phrentisiaethau ar lefelau is. Mae angen cael eglurder ynglŷn â'r pwynt hwn er mwyn llywio datblygiadau yn y dyfodol.



## Briff ar Radd-brentisiaethau

23 Ionawr 2020

### Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth am recriwtio i radd-brentisiaethau yn 2018/19 ar y Fframwaith Gradd-brentisiaethau Digidol (Cymru), ar sail data monitro diwedd y flwyddyn HESA. Mae'r papur hefyd yn darparu safbwynt wedi'i ddiweddarau o ran recriwtio i radd-brentisiaethau yn 2019/20 ar sail adroddiadau monitro a gyflwynwyd gan sefydliadau a ariennir gan CCAUC yng nghyfnod 1 (o 01/08/2019 i 15/11/2019). Mae hyn yn berthnasol i brentisiaid newydd a pharhaus ar y [Fframwaith Gradd-brentisiaethau Digidol \(Cymru\)](#), a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill 2018, a phrentisiaid newydd ar y [Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch \(Cymru\)](#), a gyhoeddwyd ar 1 Awst 2019.


### Gradd-brentisiaethau 2018/19

- Gwnaeth cylchlythyr [W18/13HE Degree Apprenticeships in Wales](#) wahodd sefydliadau a ariennir gan CCAUC i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllido'r Radd-brentisiaeth Ddigidol (Cymru) yn 2018/19. Aeth CCAUC â'r cynigion llwyddiannus ymlaen i ariannu lleoedd ar y brentisiaeth, a chyhoeddwyd ail alwad am gynigion yn 2018/19 yng nghylchlythyr [W18/32HE Additional Degree Apprenticeship Numbers in Wales for 2018/19 and monitoring information for apprenticeships already allocated for 2018/19](#).
- Mae sefydliadau a ariennir gan CCAUC sy'n cyflenwi cymwysterau yn erbyn y Fframwaith Gradd-brentisiaethau (Cymru) yn 2018/19 yn cynnwys:

Darparwr	Llwybr	Teitl y cymhwyster
Prifysgol Bangor	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Data	BSc (Anrhydedd) mewn Gwyddoniaeth Data Cymhwysol
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol
Prifysgol Abertawe	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianeg

		Meddalwedd Gymhwysol
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Data	BSc (Anrhydedd) mewn Cyfrifiadura (Systemau Data a Gwybodaeth)
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Seiber	BSc (Anrhydedd) mewn Cyfrifiadura (Rhwydweithiau Cyfrifiadurol a Seiberddiogelwch)
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Cyfrifiadura (Peirianeg Meddalwedd)
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Seiber	BSc (Anrhydedd) mewn Seiberddiogelwch
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Cyfrifiadura

- Cymeradwywyd Prifysgol De Cymru i gyflawni BSc (Anrhydedd) Datrysiadau Digidol a Thechnoleg yn 2019/20;
  - Gwnaeth Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth awgrymu eu bod yn bwriadu cyflwyno cynigion ar gyfer gradd-brentisiaethau yn 2019/20.
- Gwnaeth CCAUC ymrwmo i ariannu 1210 o brentisiaethau, sy'n gyfwerth â £1,865,250 o'r £3,000,000 o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer 2018/19, ar un neu fwy o'r llwybrau a nodir ar y Fframwaith Gradd-brentisiaethau Digidol (Cymru). Gwnaeth sefydliadau a ariennir gan CCAUC adrodd bod 155<sup>1</sup> o brentisiaid wedi'u recriwtio yn erbyn y niferoedd a gymeradwywyd ar gyfer y ddarpariaeth yn 2018/19. Mae'r rhain wedi'u cymeradwyo ar gyfer cyllid parhad hyd at 2019/20:



- Gwnaeth cylchlythyr [W18/32HE](#), a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2018, wahodd sefydliadau a ariennir gan CCAUC i gyflwyno adroddiadau monitro ar gyfer recriwtio i radd-brentisiaethau yn 2018/19. Mae data gan gyflogwyr a ddychwelwyd drwy'r broses hon yn dangos bod 13% o radd-brentisiaid yn

<sup>1</sup> Mae pob rhif yn cael ei dalgrynnu i fyny neu i lawr at y lluosrif 5 agosaf. Mae unrhyw rif sy'n is na 2.5 yn cael ei dalgrynnu i 0. Mae haneri yn cael eu talgrynnu i fyny (e.e. mae 2.5 yn cael ei dalgrynnu i 5).

dechrau o'r newydd, a bod 36% o'r cyflogwyr sy'n cael mynediad i'r rhaglen yn fusnesau bach a chanolig:


		Rhif	Canran
<b>Statws y gweithiwr</b>	Gweithiwr presennol	130	86.67%
	Gweithiwr newydd	20	13.33%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>150</b>	
<b>Maint y cyflogwr</b>	Busnes bach a chanolig	25	35.71%
	Ddim yn fusnes bach a chanolig	45	64.29%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>70</b>	

### Cofnod myfyrwyr HESA 2018/19

- Mae [cofnod myfyrwyr HESA](#) 2018/19 yn darparu data monitro diwedd y flwyddyn go iawn ar gyfer gradd-brentisiaid. Gweler **Atodiad A**.
- Mae data o gofnod myfyrwyr HESA yn amlygu'r canlynol ar sail cyfanswm o 155<sup>1</sup> o brentisiaid a gofrestrwyd yn 2018/19:
  - Roedd 19.6% yn siaradwyr Cymraeg;
  - Roedd 10% yn 21 oed neu'n iau;
  - Roedd 21.6% yn fenywod;
  - Gwnaeth 9.8% ddatgan bod ganddynt anabledd;
  - Roedd 4.7% yn dod o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig;
  - Roedd gan 23.5% gymwysterau blaenorol ar lefel gradd neu ôl-raddedig;
  - Roedd gan 25 o brentisiaid (17.4%) farciwr cymdogaeth cyfranogiad isel, ac roedd 25 o brentisiaid (17.1%) ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (Malc);
  - Ymadawodd 19.6% o brentisiaid y rhaglen gradd-brentisiaethau yn ystod 2018/19. Mae nifer y rhai a gwblhaodd y rhaglen yn llwyddiannus yn cyfrif am 50% o'r ffigur hwn;
  - Abertawe yw'r awdurdod unedol y mae'r ganran uchaf o brentisiaid (19%) yn hanu ohono.
- Nid yw cofnod myfyrwyr HESA yn cofnodi gwybodaeth am gyflogwyr a allai ddarparu data ar nifer y cyflogwyr ym mhob awdurdod lleol, neu'r awdurdod lleol lle mae'r prentisiaid yn cael eu cyflogi.

## Gradd-brentisiaethau 2019/20

- Gwnaeth cylchlythyr [W19/04HE](#), a gyhoeddwyd ar 21 Mawrth 2019, wahodd sefydliadau a ariennir gan CCAUC i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllido gradd-brentisiaethau yn 2019/20 yn erbyn un neu fwy o'r llwybrau a nodwyd ar y [Fframwaith Gradd-brentisiaethau Digidol \(Cymru\)](#), a'r [Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch \(Cymru\)](#). Mae cynigion a gyflwynwyd ar gyfer myfyrwyr newydd a pharhaus yn 2019/20 yn dangos bod dros 190<sup>1</sup> o gyflogwyr yn cymryd rhan yn y broses hon.
- Mae CCAUC wedi ymrwmo i fwrw ymlaen cynigion i ariannu 585<sup>1</sup> o brentisiaethau newydd yn 2019/20. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys 310<sup>1</sup> o brentisiaid newydd ar y Fframwaith Gradd-brentisiaethau Digidol (Cymru), a 275<sup>1</sup> o brentisiaid newydd ar y Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (Cymru) ar gyfer 2019/20. Cafwyd dyraniad ychwanegol o 155<sup>1</sup> o brentisiaethau yn parhau o 2018/19 i 2019/20:



## Adroddiad Monitro 2019/20

- Gwnaeth cylchlythyr [W19/38HE](#), a gyhoeddwyd ar 13 Tachwedd 2019, amlinellu trefniadau monitro ar gyfer recriwtio i radd-brentisiaethau yn 2019/20. Bydd gwybodaeth fonitro yn cael ei chasglu gan sefydliadau a ariennir gan CCAUC ar draws tri chyfnod cyfeirio yn ystod 2019/20. Mae hyn yn adlewyrchu cyfnodau cyfeirio yn rhaglen 'Data Futures' HESA. Y cyfnodau cyfeirio yw:

Cyfnod cyfeirio un: 01/08/2019 – 15/11/2019

Cyfnod cyfeirio dau: 16/11/2019 – 31/03/2020

Cyfnod cyfeirio tri: 01/04/2020 – 31/07/2020

- Mae data a adroddwyd gan sefydliadau a ariennir gan CCAUC yn eu hadroddiadau monitro yn ystod cyfnod cyfeirio un yn amlygu cyfanswm recriwtio o 380 o brentisiaid newydd a pharhaus. Gweler **Atodiad B**.
- Ar sail y data monitro a adroddwyd yn ystod cyfnod cyfeirio un, ceir ffigur cadw o 82% rhwng 2018/19 a 2019/20. Ni fydd ffigur cadw terfynol ar gael nes cyfnod cyfeirio tri, sef 31 Gorffennaf 2020, pan fydd yr holl ddechreuadau ychwanegol yn y flwyddyn yn cael eu hadrodd. Mae hyn yn ddarostyngedig i ddata monitro diwedd blwyddyn HESA.
- O'r 380 o brentisiaid newydd a pharhaus, mae data monitro o gyfnod cyfeirio un 2019/20 yn tynnu sylw at y canlynol:
  - Mae recriwtio yn cynnwys 270 o brentisiaid newydd yn 2019/20, a 115 o brentisiaid yn parhau o 2018/19;
  - Mae 20% yn siaradwyr Cymraeg;
  - Mae 20% yn 21 oed neu'n iau;
  - Mae 17% yn fenywod;
  - Gwnaeth 7% ddatgan bod ganddynt anabledd;
  - Mae 3% o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig;
  - Mae 39% o gyflogwyr yn y sector gweithgynhyrchu;
  - Mae 20% o gyflogwyr yn fusnesau bach a chanolig;
  - Mae 58% o brentisiaid wedi cofrestru ar y Fframwaith Digidol, ac mae 42% o brentisiaid wedi cofrestru ar y Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch;
  - Mae 135 o brentisiaid wedi'u cofrestru ar y llwybr Peirianeg Meddalwedd (36%);
  - Mae 295 o brentisiaid yn weithwyr presennol (78%), ac mae 85 o brentisiaid yn weithwyr newydd (22%).
- Mae'r sefydliadau a ariennir gan CCAUC sy'n cyflwyno cymwysterau yn erbyn Fframwaith Gradd-brentisiaethau Digidol (Cymru) 2018/19 a'r Fframwaith Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch (Cymru) yn cynnwys:

Corff dyfarnu	Llwybr	Cymhwyster
Prifysgol Aberystwyth		Yn cael ei ddatblygu
Prifysgol Bangor	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianeg Meddalwedd Gymhwysol
	Seiber	BSc (Anrhydedd) mewn Seiberddiogelwch Cymhwysol

	Data	BSc (Anrhydedd) mewn Gwyddoniaeth Data Cymhwysol
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BEng (Anrhydedd) mewn Systemau Peirianneg Gymhwysol (Mecanyddol)
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BEng (Anrhydedd) mewn Systemau Peirianneg Gymhwysol (Trydanol/Electronig)
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	Data	BSc (Anrhydedd) mewn Gwyddoniaeth Data Cymhwysol
Prifysgol Caerdydd	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BEng (Anrhydedd) mewn Peirianneg Integredig
	Meddalwedd	BSc Gradd-brentisiaeth mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol
Prifysgol Abertawe	Gweithgynhyrchu Uwch	BEng mewn Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BEng mewn Peirianneg Awyrennol a Gweithgynhyrchu
	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianneg Meddalwedd Gymhwysol
Prifysgol De Cymru	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Datrysiadau Digidol a Thechnoleg
	Seiber	BSc (Anrhydedd) mewn Seiberddiogelwch
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianneg Fecanyddol
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BEng (Anrhydedd) mewn Peirianneg Fecanyddol
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BEng (Anrhydedd) mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BSc (Anrhydedd) mewn Technolegau Lled-ddargludyddion Cyfansawdd (Ychwanegiad)
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Seiber	BSc (Anrhydedd) mewn Cyfrifiadura (Rhwydweithiau Cyfrifiadurol a Seiberddiogelwch)
	Data	BSc (Anrhydedd) mewn Cyfrifiadura (Systemau Data a Gwybodaeth)
	Meddalwedd	BSc (Anrhydedd) mewn Cyfrifiadura (Peirianneg Meddalwedd)
	Gweithgynhyrchu Uwch	BSc (Anrhydedd) mewn Ordians, Arfau a Ffrwydrion
	Gweithgynhyrchu Uwch	BEng mewn Gwyddoniaeth Deunyddiau
	Gweithgynhyrchu Uwch	BEng mewn Peirianneg Systemau Gweithgynhyrchu
	Gweithgynhyrchu Uwch	BSc (Anrhydedd) mewn Gweithrediadau Gweithgynhyrchu Uwch
	Gweithgynhyrchu Uwch	BEng mewn Peirianneg Fecanyddol a Gweithgynhyrchu
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianneg Drydanol ac Electronig
	Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg	BSc (Anrhydedd) mewn Peirianneg Fecanyddol
	Prifysgol Glyndŵr Wrecsam	Meddalwedd
Seiber		BSc (Anrhydedd) mewn Seiberddiogelwch
Gweithgynhyrchu Uwch		BEng (Anrhydedd) mewn Peirianneg Cynhyrchu
Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg		BEng (Anrhydedd) mewn Dylunio Peirianneg Ddiwydiannol (Mecanyddol)
Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg		BEng (Anrhydedd) mewn Dylunio Peirianneg Ddiwydiannol (Trydanol)

- Ceir rhagor o wybodaeth am y rhaglen gradd-brentisiaethau ar wefan [CCAUC](#) a [Phorth Sgiliau Busnes Cymru](#).

**Atodiad A**

**Gradd-brentisiaethau 2018/19**

Cyfrifiadau cryno o'r holl gofnodion myfyrwyr unigol ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dechrau gradd-brentisiaethau yn 2018/19

Cofnod myfyrwyr HESA

	Lefel mynediad i'r brentisiaeth				Statws siaradwr Cymraeg			Oedran			Rhyw				Anabledd			Ethnigrwydd				Cyfanswm y cofrestradau
	Lefel 4	Lefel 5	Lefel 6	Lefel anhysbys	Siaradwr Cymraeg	Ddim yn siaradwr Cymraeg	% o siaradwyr Cymraeg	Dan 21 oed	21 oed a hŷn	% 21 oed a hŷn	Gwrywaidd	Benywaidd	Arall	% benywaidd	Anabledd wedi'i ddatgan	Dim anabledd hysbys	% anabledd wedi'i ddatgan	Gwyn	Grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig	Ddim yn hysbys	% grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig	
<b>Cyfanswm ar gyfer Cymru</b>	120	15	20	0	30	125	19.6%	15	135	88.9%	120	35	0	21.6%	15	140	9.8%	140	5	5	4.7%	155

	Cymwysterau blaenorol					Cyfranogiad isel				Amddifadedd				Cadw					Cyfanswm y cofrestradau	
	Gradd gyntaf	Ôl-raddedig	Arall	Dim	% gradd gyntaf neu ôl-raddedig	Ardal cyfranogiad isel	Ardal arall yn y DU	Ardal nad yw yn y DU	% ardal cyfranogiad isel	Ardal amddifadedd	Ardal arall o Gymru	Ardal nad yw yng Nghymru	% ardal amddifadedd	Nifer ar radd-brentisiaethau 2018/19	Nifer a gwblhawyd yn llwyddiannus yn 2018/19	Nifer y trosglwyd diadau i ffwrdd 2018/19	Nifer na chwblhawyd 2018/19	Cyfanswm y rhai sy'n gadael yn 2018/19		% cyfanswm y rhai sy'n gadael yn 2018/19
<b>Cyfanswm ar gyfer Cymru</b>	25	10	105	15	23.5%	25	125	5	17.4%	25	120	5	17.1%	155	15	0	15	30	19.6%	155

	Yr awdurdod unedol lle mae'r myfyrwyr yn preswyllo																				Cyfanswm y cofrestradau				
	Blaenau Gwent	Pen-y-bont ar Ogwr	Caerffili	Caerdydd	Sir Gaerfyrddin	Ceredigion	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd	Ynys Môn	Merthyr Tudful	Sir Fynwy	Castell-nedd Port Talbot	Casnewydd	Sir Benfro	Powys	Rhondda Cynon Taf	Abertawe	Torfaen		Bro Morgannwg	Wrecsam	Ardal arall yn y DU	Ddim o'r DU – cyfeiriad yng Nghymru yn ystod y tymor
<b>Cyfanswm ar gyfer Cymru</b>	0	5	0	15	15	5	0	0	10	0	0	5	0	15	15	0	0	10	30	5	5	0	5	5	155

**Ffynhonnell: Cofnod myfyrwyr HESA 2018/19**

**Nodiadau**

Mae ôl-raddedig yn cynnwys TAR

Ardal cyfranogiad isel: Ar gyfer myfyrwyr ifanc amser llawn – yr ardaloedd hynny yn y chwintel isaf o ardaloedd fel y'i diffinnir gan POLAR4

Ar gyfer myfyrwyr hŷn a phob myfyrwr rhan-amser – yr ardaloedd hynny yn y chwintel isaf o ardaloedd fel y'i diffinnir gan y gyfran o oedolion o oed gwaith â chymwysterau ar lefel addysg uwch (fel y'i mesurwyd gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2011)

Diffinnir ifanc fel bod yn 20 oed neu'n iau ar ddechrau'r cwrs. Diffinnir hyn fel bod yn 21 oed neu'n hŷn ar ddechrau'r cwrs

Ardaloedd amddifadedd yw'r ardaloedd hynny sydd yn y chwintel isaf fel y'i diffinnir gan MALIC14

Nid yw % y rhai sy'n gadael yn awgrymu'r ganran a allai beidio â dychwelyd, dim ond y rheini sydd wedi gadael yn 2018/19

Nid yw ardal nad yw yn y DU wedi'i chynnwys wrth gyfrifo '% ardal cyfranogiad isel'

Nid yw ardal nad yw yng Nghymru wedi'i chynnwys wrth gyfrifo '% ardal amddifadedd'

Cynhelir gradd-brentisiaethau mewn 19 o'r 22 awdurdod unedol yng Nghymru, ond oherwydd y fethodoleg ar gyfer rheoli datgelu data, mae ffigurau bach yn cael eu talgrynnu i 0, ac o ganlyniad mae'n ymddangos fel petai gradd-brentisiaethau ond yn dod o 12 awdurdod lleol.

Cymhwyswyd y fethodoleg rheoli data: Mae hyn yn golygu bod: Mae pob rhif yn cael ei dalgrynnu i fyny neu i lawr at y lluosrif 5 agosaf. Mae unrhyw rif sy'n is na 2.5 yn cael ei dalgrynnu i 0. Mae haneri yn cael eu talgrynnu i fyny (e.e. mae 2.5 yn cael ei dalgrynnu i 5)

Mae canrannau yn cael eu cyfrifo ar ddata sydd heb eu talgrynnu

Mae canrannau a gyfrifir ar boblogaethau sy'n cynnwys llai na 22.5 o unigolion yn cael eu hatal a'u cynrychioli gan "."

Y cyfansymiau yw'r symiau a dalgrynnir o'r data nad ydynt wedi'u talgrynnu ac felly mae'n bosibl y gallant ymddangos yn wahanol i swm y data unigol sydd wedi'u talgrynnu

4 yw'r lefel mynediad ar gyfer diwygio â llaw y Brifysgol Agored (o anhysbys)

Cymwysterau blaenorol

Ôl-raddedig

Gradd gyntaf

Arall

Dim

Atodiad B

Crynodeb o adroddiadau monitro gradd-brentisiaethau o fewn y flwyddyn 2019/20

Cyfnod Cyfeirio Un: 01/08/2019 – 15/11/2020

		Prentis newydd Nifer	Prentis parhaus Nifer	Cyfanswm y nifer	Cyfanswm y ganran
Lefel mynediad i'r brentisiaeth	Lefel 4	175	100	280	74%
	Lefel 5	55	10	70	18%
	Lefel 6	35	0	35	9%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>270</b>	<b>115</b>	<b>380</b>	
Statws siaradwr Cymraeg	Siaradwr Cymraeg	60	15	75	20%
	Ddim yn siaradwr Cymraeg	210	95	305	80%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>270</b>	<b>115</b>	<b>380</b>	
Oedran	Dan 21 oed	60	15	75	20%
	21 oed a hŷn	210	95	305	80%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>270</b>	<b>115</b>	<b>380</b>	
Rhyw	Gwrywaidd	230	85	315	83%
	Benywaidd	35	30	65	17%
	Arall	0	0	0	0%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>270</b>	<b>115</b>	<b>380</b>	
Statws anabledd	Anabl	15	10	25	7%
	Dim anabledd hysbys	250	105	355	93%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>270</b>	<b>115</b>	<b>380</b>	
Ethnigrwydd	Gwyn	240	105	350	92%
	Du a lleiafrifoedd ethnig	5	0	10	3%
	Ethnigrwydd anhysbys	20	5	25	7%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>270</b>	<b>115</b>	<b>380</b>	
Sector	C Gweithgynhyrchu	5	145	150	39%
	D Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru	0	0	0	0%
	E Cyflenwi dŵr, carthffosiaeth, rheoli gwastraff a gweithgareddau adfer	0	5	5	1%
	F Adeiladu	0	5	5	1%
	G Y fasnach gyfanwerthu a manwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau	0	5	5	1%
	H Trafnidiaeth a storio	0	0	5	1%
	I Llety a gweithgareddau gwasanaethau bwyd	5	5	5	1%
	J Gwybodaeth a chyfathrebu	15	20	35	9%
	K Gweithgareddau ariannol ac yswiriant	0	20	20	5%
	M Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	5	5	15	4%
	N Gweithgareddau gweinyddol a gwasanaethau cymorth	5	0	5	1%
	O Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol	45	30	75	20%
	P Addysg	10	10	15	4%
	Q Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol	25	15	40	11%
S Gweithgareddau gwasanaethau eraill	0	0	0	0%	
<b>Cyfanswm</b>	<b>115</b>	<b>270</b>	<b>380</b>		
Busnes bach a chanolig neu beidio	Ddim yn fusnes bach a chanolig	85	215	305	80%
	Busnes bach a chanolig	25	50	75	20%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>115</b>	<b>270</b>	<b>380</b>	
Fframwaith	Digidol	115	110	220	58%
	Peirianneg a gweithgynhyrchu uwch	0	160	160	42%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>115</b>	<b>270</b>	<b>380</b>	
Llwybr	Rheoli seiberddiogelwch	30	10	40	11%
	Gwyddoniaeth data	35	15	50	13%
	Peirianneg meddalwedd	50	80	135	36%
	Gweithgynhyrchu uwch	0	55	55	14%
	Peirianneg gemegol	0	5	5	1%
	Peirianneg drydanol/electronig	0	35	35	9%
	Peirianneg fecanyddol	0	60	60	16%
<b>Cyfanswm</b>	<b>115</b>	<b>270</b>	<b>380</b>		
Gweithiwr presennol neu newydd	Gweithiwr presennol	90	205	295	78%
	Gweithiwr newydd	20	65	85	22%
	<b>Cyfanswm</b>	<b>115</b>	<b>270</b>	<b>380</b>	

Ffynhonnell: Data a gasglwyd yn uniongyrchol gan ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru

Nodiadau

Prentis newydd – prentisiaid sy'n dechrau yn 2019/20 rhwng 1 Awst 2019 a 15 Tachwedd 2019

Prentis parhaus – prentisiaid sy'n dechrau yn 2018/19 ac yn parhau yn 2019/20

Am ragor o ddiffiniadau, cyfeiriwch at y daflen 'Nodiadau'

Mae methodoleg CCAUC ar gyfer rheoli datgelu data wedi'i chymhwyso. Mae hyn yn golygu bod:

Mae pob rhif yn cael ei dalgrynnu i fyny neu i lawr at y lluosrif 5 agosaf. Mae unrhyw rif sy'n is na 2.5 yn cael ei dalgrynnu i 0. Mae haneri yn cael eu talgrynnu i fyny (e.e. mae 2.5 yn cael ei dalgrynnu i 5).

Y cyfnodau cyfeirio monitro yw:

Un: 01/08/2019 – 15/11/2019

Dau: 16/11/2019 – 31/03/2020

Tri: 01/04/2020 – 31/07/2020